



"Gyda pwy fyddwn ni'n chwarae tro nesaf, Ewrop neu'r Unol Daleithau?"

tud 3
Pobl a Phethe

tud 4
Ysgol Tal-y-bont

tud 6/7
Sioe Llangynfelyn

tud 12
Pêl-droed

Datblygiad Gwefreiddiol

Bellach mae gan Ganolbarth Cymru wefrwr cyflym ar gyfer cerbydau trydan diolch i Cletwr, Tre'r ddôl a chwmni Chargemaster. Yn dilyn cystadleuaeth a gynhaliwyd ar raglen Aled Hughes ar Radio Cymru mae rhai yn dechrau cyfeirio at y safle gwefru fel Tap Trydan, ac eisoes mae'r datblygiad wedi arwain at ddenu defnyddwyr o bell sy'n rhoi hwb i fusnesau lleol eraill, yn ogystal â Chletwr ei hun.

Mae'r gwefrwr cyflym Ultracharge yn rhan o rwydwaith POLAR ac yn medru cynnig opsiynau am gyflenwad 50kW DC neu 43kW AC gan ganiatáu i gerbydau trydan pur lenwi eu batris yn yr amser a gymerir i gael paned a chacen yn y caffi. Lleolir y tapiau trydan POLAR eraill yng Nghymru yng Nghasnewydd, Wrecsam, Caerdydd ac Abertawe.

Meddai Suzanne Davies, Rheolwr Cynorthwyol Cletwr, 'Rydym ni'n falch iawn o fod yn gartref i'r charger cyflym cyntaf yng Nghanolbarth Cymru a fydd yn gwneud hi'n haws o lawer i yrru cerbydau trydanol yng Nghymru.'

Mae'r peiriant yn weithredol hyd yn oed pan mae Cletwr ar gau a gwyddom am o leiaf un cwsmer wnaeth aros am bryd o fwyd yn y Wildfowler tra bod ei gar yn sownd wrth y Tap Trydan. Llongyfarchiadau i Cletwr am arwain y ffordd unwaith eto.



De: Y Tap Trydan Newydd



Man pasio newydd ar ffordd Bontgoch

Ffordd ar Gau

Cofiwch fod y ffordd fawr trwy ganol Bont-goch ar gau ar gyfer gosod wyneb newydd, rhwng 7.30 bore Llyn 15 Hydref a 18.00 nos Iau 18 Hydref. Mae'r map uchod yn dangos lleoliad y ffordd a effeithir. Bydd y pump o lefydd pasio newydd a grëwyd rhwng Tal-y-bont a Bont-goch o gymorth mawr wrth i drigolion y pentref deithio yn ôl ac ymlaen yn ystod y cyfnod hwnnw.



Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL	
Maes-y-deri:	Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont	832592
Parsel Henlllys:	Karren Roberts	07800 806578
Bont-goch:	Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch	832566
Tre Taliesin:	Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin	832230
Tre'r-ddôl:	Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl	(01654) 781260
	Michelle James, 4 Maes Clettwr, Tre'r-ddôl	832028
Eglwysfach/Ffwrnais:	Non Griffiths	(01654) 703635
Rhwydweithiau cymdeithasol:	Ceri Morgan	
Cadeirydd:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB	
Is-gadeirydd:	Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont	832697
Ysgrifennydd:	Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont	832344
Trysorydd:	Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont	832093
Tanysgrifiadau:	Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont	832448
Hysbysebion:	Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont	832076
Plygu'r Papur:	Gwenllian Parry-Jones; Beti Jenkins	
Dosbarthwyr:	Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones; Carys Briddon, Bob Williams	

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

am yr holl wybodaeth am Papur Pawb ewch at ein gwefan...
www.papurpawb.cymru
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweiplyfr (@papurpawb)

CYMRAG



**Darlith Flynyddol Morlan-
Pantfedwen 2018**

6.00, nos Fercher, 24 Hydref 2018

**'Is There a Christian Alternative
to Capitalism or Socialism?'**

**Yr Arglwydd Brian Griffiths o
Fforestfach**

Canolfan Morlan, Morfa Mawr,
Aberystwyth

Croeso i bawb!



Golygyddion y rhifyn hwn oedd
Phil a Megan gyda Siôn yn
dylunio. Y golygyddion ar gyfer y
rhifyn nesaf fydd Mair
(mair.n@btinternet.com), Beryl
(ffermglanrafon1@btinternet.com)
a Lisa
(LizaAwelon@outlook.com). Y
dyddiad cau yw 2 Tachwedd a
bydd y papur ar werth ar 9
Tachwedd.



Alun Davies
Contractiwr Trydanol

T 01970 832142 **M** 07703 169813

Gwynfryn, Talybont, Ceredigion SY245EA
E alun.davies142@btinternet.com



Gwilym Bowen Rhys
Cyngerdd Byw

Nos Sadwrn
20 Hydref
19.30–21.15

Tocynnau ymlaen llaw
£ 6.50 neu Teulu £ 15

Cletwr

Dyddiadur

HYDREF

- Ffair Grefftau (hyd 13 Tachwedd)** 10–4 bob dydd, Gwarchodfa Adar Ynys-hir
- Bethel** 11.15 Uno yn Nasareth **Nasareth** 11.15 Bugail **Rehoboth** 10 Huw Roderick **Cletwr** 10–12 'Sgwrs Ffotograffiaeth' (Jean Napier)
- Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Blodau'r Beibl' (Ann Mason Davies)
- Cletwr** 2.15 Sesiwn Stori **Cletwr** 7–8.30 'Dathlu Bywyd' **Dawnsio Albanaidd** 7.30 Ystafell Haeam, Eglwysfach **Sgwrs am Berlysiâu** (Andy Cook o erddi Rhoshill) 7.30 Llanfach. Mynediad am ddim
- Tai Chi** 2–3.30 Ystafell Haeam, Eglwysfach
- Cletwr** 7–9 Clwb Gemau Bwrdd Machynlleth ar Daith **Cwis** 8 Wildfowler
- Cletwr** 11–12 'Dal ati' **Cletwr** Gwilym Bowen Rhys 7.30–9.30
- Bethel** 10 Gwasanaeth Teulu **Rehoboth** 10 Beti Griffiths **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Cymun Bendigaidd **Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Hwylol Weddi
- Cletwr** 7–8.30 Sgwrs Fragments
- Cletwr** 9.15–11.15a.m. 'Aros yn Ddiogel ar y Rhyngwryd'
- Tai Chi** 2–3.30 Ystafell Haeam, Eglwysfach **Bingo** 7.30 Wildfowler
- Sesiwn Nos Wener** 8 Dafydd Iwan yn y Llew Du
- Safari ar y glaswelltir gwlyb** 9 yb, Gwarchodfa Adar Ynys-hir **Cwis** 7.30 Ystafell Haeam, Eglwysfach
- Bethel** 10 Geraint Evans **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 Gwasanaeth Boreol
- Neuadd Goffa Tal-y-bont** 4.00–6.00 Parti Calan Gaeaf Cylch Meithrin
- Tenis Bwrdd** 7 Ystafell Haeam, Eglwysfach **Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** 'Cerrig adeiladu yng Ngheredigion' (Tim Palmer) 7.30 Llanfach
- Gweithdy gwneud llusern** 11 ac 1, Gwarchodfa Adar Ynys-hir **Taith gyda'r nos** i weld bywyd gwyllt 4–6 Gwarchodfa Adar Ynys-hir

TACHWEDD

- Bethel** Uno yn Nasareth **Nasareth** 11.15 Bugail **Rehoboth** 10 Beryl Vaughan **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30 **Eglwys Sant Pedr, Elerch** 2.30 Cymun Bendigaidd
- Sefydliad y Merched Taliesin** 'Arlunio Arbrofol' (Sylvia a Juliet Regan)
- Bingo** 7.30 Wildfowler
- Clwb Llyfrau** 2.30 Ystafell Haeam, Eglwysfach **Cwis** 8 Wildfowler
- Bethel** 10 Parchg Richard Lewis **Neuadd Goffa Tal-y-bont** 10.45 Gwasanaeth Sul y Cofio **Rehoboth** 5 Bugail **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 **Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30

Cletwr

Bob dydd Mawrth 'Tro a Chlonc' 11–11.45

Bob dydd Mawrth 'Clonc a Gweu' 3–5

Bob dydd Sul 'Rhedeg Cymdeithasol' 9.30–10.30



Am
**GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU**

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**Gwasanaeth Scanio
ARTHUR MORGAN**



Pencefen, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 – 07721 786292

LRJ

**Plymio
cyffredinol
a chynhaliaeth**

Llion Jenkins
07958 701861
llionjenx94@hotmail.co.uk

Ysguborycoed

Bu cryn anlwc i ddwy yn yr ardal, sef, Alison Swanson, Cefn Sidan, Ffwrnais a Marilyn Evans, Tycwm, Eglwysfach, ar ôl i'r ddwy gwmpo yn eu cartrefi. Maent wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Bronglais. Hefyd y mae Lilian Hughes, Y Foelas, Glandyfi, yno ar hyn o bryd. Dymuniadau gorau i'r tair, a brysiwch wella.

Eglwysfach

Cynhaliwyd bore coffi yn yr Ystafell Haearn, ar fore Sadwrn, 29 o Fedi, i godi arian at Nyrsus Macmillan. Cafwyd cynrychiolaeth dda, a chodwyd cyfanswm sylweddol o £236. Fel arfer mae aelodau'r Eglwys yn gweithio'n galed i godi arian at wahanol elusennau, ac mae'n werth mynd er mwyn profi'r cacennau blasus, sydd yno bob tro!

Pen-blwydd Arbennig

Pen-blwydd hapus iawn a phob dymuniad da i Myfanwy Ford, Glyncoed, Taliesin sy'n dathlu pen-blwydd arbennig 14 Hydref.

Symud Tŷ

Dymuniadau gorau i Wendy Foulkes a'r teulu sydd wedi symud i fyw o Hyfrydle, Taliesin i'r Borth. Byddwn yn gweld eu heisiau yma ond gobeithio y byddan nhw'n hapus iawn ar lan y môr.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau mawr i Sylvia Cartwright, 1, The Romans, Taliesin ar fod yn nain unwaith eto ac i'w mab Jeremy a Catriona, Neuadd Fach, Tal-y-bont, ar enedigaeth eu mab Conor ar 3 Medi.

Capel Bethesda Tynant

Cynhaliwyd gwasanaeth yng nghapel Bethesda Tynant ar brynhawn Sul, 16 Medi, dan ofal Mr Wil Griffiths, Comins Coch. Roedd yr oedfa yn glo teilwng i raglen capel Bethesda am eleni.

Adref o'r Ysbyty

Mae'n dda clywed fod David Jones, Berthlwyd, Tal-y-bont wedi dychwelyd adref ar ôl

Pobl a Phethe



Ymweliad Esgob

Yr Esgob Andy John, Bangor, a fu'n pregethu yng ngwasanaeth diolchgarwch Eglwys Elerch, dydd Sul 7 Hydref. Yn y llun hefyd gwelir y ficer, Canon Andrew Loat, a fu'n arwain y gwasanaeth.

treulio wythnos yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddo.

Profedigaeth

Cydymdeimlwn â Marc Richards, Rhiwlan, Tal-y-bont ar golli ei ddad-cu a fu farw yn dilyn cyfnod hir ym Mhlas Cwm Cynfelyn.

Pen-blwydd

Pen-blwydd hapus i Paul Watkin gynt o Bentre Bach sydd newydd ddathlu ei ben-blwydd yn un ar hugain oed.

Diolch

Mae Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont yn dymuno diolch yn ddiffuant am yr holl gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

Triniaeth

Mae'n braf deall bod y driniaeth a dderbyniodd Enid Gruffudd, Bryngwyn, Tal-y-bont ar ei llygad yn Ysbyty Bronglais wedi bod yn llwyddiannus.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Gwilym Jenkins, Llety'r Bugail, Margaret Jones, Nantgaredig a Non Griffiths, Ffwrnais ar golli brawd-yng-nghyfraith, sef Emyr Thomas Cross Inn, Llandysul, gŵr Edna, gynt o Llety Llwydin, Tre'r Ddôl.

Cyfraniad Oes

Llongyfarchiadau i Dr. Iolo ap Gwynn, Garreg Wen, ar dderbyn gwobr am gyfraniad arbennig i'r mudiad cenedlaethol mewn seremoni yng Nghynhadledd Plaid

Cymru yn Aberteifi ddechrau'r mis.

Croeso

Croeso cynnes iawn i Linda Lionel sydd wedi symud i fyw i rif 1, Wesley Terrace, Taliesin, gan ddychwelyd i Geredigion ar ôl blynyddoedd maith yn byw ger Stornaway yn Ynysydd Heledd yn yr Alban.

Bethel Tal-y-bont

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Undebol Bethel Tal-y-bont ar nos Iau, 4 Hydref, gyda'r Parchedig Andrew Lenny yn gwasanaethu. Cymerwyd at y darnau rhagarweiniol gan Geraint Evans a manteisiodd ar y cyfle i ddiolch i Andrew Lenny am ei wasanaeth dros 31 o flynyddoedd yng ngogledd Ceredigion ac i ddymuno ymddeoliad hapus iddo. Braff hefyd oedd croesawu ein cyn weinidog y Parchedig Irfon Evans i'n plith ac ef a draddododd y fendith ar y diwedd.. Arbrawf am flwyddyn oedd symud y gwasanaeth o'r Sul a braf oedd gweld cyfeillion o gapeli eraill wedi gwneud yr ymdrech i gefnogi'r oedfa. Cynhelir Cwrdd Diolchgarwch y Plant fore Sul 21 Hydref.

Cyhoeddwyd yn ystod y gwasanaeth hefyd y bydd Bethel yn cyfrannau at Apêl DEC i gynorthwyo anffodusion Indonesia yn dilyn y swmami difrifol a darodd y wlad yn ddiweddar. Gellir cyflwyno unrhyw gyfraniadau unigol i'r swyddogion.

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com



Ysgol Tal-y-bont

Ysgol Iach - Llysgenhadon Efydd

Mae wedi bod yn fis prysur arall o gadw'n heini yn yr ysgol. Etholwyd dau Lysgennad Efydd newydd ac wedi hyfforddiant bywiog ar ddechrau'r mis, maen nhw wedi dechrau cynnal sesiynau hybu ffitrwydd yn yr ysgol bob prynhawn dydd Iau. Da iawn chi – mae pawb wedi mwynhau'r gweithgareddau.



Lawnsio Llyfr

Roedd hi'n hyfryd croesawu Eurig Salisbury i'r ysgol heddiw i lawnsio ei gyfrol newydd. Addasiad o un o lyfrau'r awdur poblogaidd David Walliams yw 'Yr Arth Aruthrol' ac roedd y plant i gyd wrth eu boddau'n clywed am helyntion doniol yr arth ddireidus. Diolch yn fawr am ddod atom a phob hwyl gyda'r gyfrol newydd. Artherchog!




Urdd Ceredigion

Mae hi wedi bod yn hyfryd i groesawu Helen o Urdd Ceredigion atom yn ystod y mis i gynnal sesiynau gyda dosbarth Blwyddyn 3 a 4. Roedd pawb wedi ymuno'n egniol yn y gweithgareddau gan fwynhau dysgu sgiliau newydd.



Cwmni Theatr Arad Goch

Cafwyd perfformiad graenus unwaith eto gan actorion Cwmni Theatr Arad Goch. Daethon nhw i'r ysgol i berfformio sioe o'r enw 'Cerrig yn Slic' i'r plant lleiaf.



Roedd y sioe'n canolbwyntio ar themâu fel cyfeillgarwch, siom, unigrwydd, dyfeisio gemau newydd, a bod yn greadigol. Roedd hi'n amlwg o weld wynebâu'r plant eu bod i gyd wedi mwynhau mas draw. Pob hwyl gyda gweddill y daith.

Pobl Sy'n Ein Helpu

Dyna yw thema dosbarthiadau'r cyfnod sylfaen y tymor hwn ac maent wedi cael amser arbennig yn dysgu am wahanol bobl sy'n ein helpu mewn cymdeithas. Yn gyntaf, fe ddaeth yr ymladdwyr tân atom ac fe gafodd pawb gyfle i glywed am eu gwaith a chlywed negeseuon pwysig ar sut i osgoi dechrau tân. Uchafbwynt yr ymweliad oedd cael mynd ar yr injan a gweld yr holl offer. Diolch i Karen am y negeseuon doeth.

Meddyg Teulu

Rydym yn ffodus iawn o gael cymaint o rieni sy'n fodlon dod atom i drafod eu gwaith gyda'r plant. Cafwyd bore arbennig yng nghwmni Dr Sarah Wright wnaeth sôn am ei gwaith fel meddyg. Roedd hi'n braf gweld y plant i gyd yn chwerthin wrth gael defnyddio'r stethosgop ac wrth roi rhwymyn dros eu ffrindiau. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr iawn.



Tîm Chwilio ac Achub

Am brynhawn arbennig gyda Gareth, Gareth a Greg o'r Tîm Chwilio ac Achub. Roedd yn agoriad llygad i glywed am rai o'r hanesion ac fe gafodd y plant amser gwych gan ddysgu llawer iawn am y gwaith. Diolch yn fawr i chi gyd am ddod atom ac am gyfoethogi ein gwaith.

Mewn Cymeriad

Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 gyfle i gyfarfod â Buddug, brenhines y Celtiaid yn ystod y mis. Cawsom wybod fod y Rhufeiniaid wedi goresgyn y rhan fwyaf o Gymru a Lloegr, ond mynnodd Buddug frwydro dros ei hawliau a rhyddid ei phobol. Ond faint o wahaniaeth a wnaeth yr arweinydd pengoch yn y diwedd – ac a wnaeth hi lwyddo? Dyna rai o'r pethau wnaethom ddysgu mewn perfformiad rhyngweithiol hynod effeithiol. Diolch yn fawr i Malan Wilkinson am ei pherfformiad ac am gyflwyno cymeriad Buddug mor fyw i ni.



Ymweliad Faciwî

Ychydig o ddarllenwyr Papur Pawb sydd nawr yn cofio y faciws yn ystod yr Ail Ryfel Byd - er i ddisgyblion Ysgol Llangynfelyn wneud prosiect arnynt rai blynyddoedd yn ôl.

Rown i yn y tŷ un bore ddiwedd Ebrill a dyma'r ffôn yn canu – roedd yna gwpwl o alwadau niwsans wedi bod yn barod ac roeddwn yn dechrau gwylltio, ond sylwais fod hwn yn rif iawn ac fe atebais. Dyma'r person ar y ben arall yn dweud mai Will Crye oedd yna – adnabyddais yr enw fel yr un fu yn faciwî yn Alltgoch. Roedd wedi siarad gyda David yn barod a dywedodd ei fod ef a'i deulu yn dod i waelod y sir yma ar wyliau ym Mehefin ac am ddod i'n gweld.

Roedd Will yn dod o ardal Anfield yn Lerpwl. Ar Fedi 1^{af} 1939, rai dyddiau cyn dechrau y rhyfel, roedd y plant wedi eu rhoi ar y trênn yn Lerpwl a chyrraedd gorsaf y Borth – pob un â label am ei wddf gyda'i enw, ei fag ac ychydig gynhwysion, a'i "gas mask". Roedd nifer o geir yn eu cwrdd a'u dosbarthu i gartrefi'r ardal. Cyrhaeddodd Will ac un arall Alltgoch, ar ôl cael eu gwrthod mewn cwpwl o gartrefi eraill. Wrth weld nhad a mam a dad-cu yn gwenu arnynt sibrydodd Will wrth ei gyfaill "we're in here". Yn anffodus, roedd mam yr ail fachgen yn hiraethu mor ofnadwy amdano fel y bu raid i'w dad ddod i lawr, yn ei foto-beic a seidcar, i'w gyrchu adref. Ond sefodd Will yn Alltgoch



am dair blynedd a hanner a'r unig reswm iddo adael oedd i briodas yn ei deulu. Roedd dwy chwaer iddo hefyd ar y trênn a bu cryn amser cyn iddo glywed eu bod wedi cael eu cymryd i mewn gan y teulu oedd yn rhedeg y swyddfa bost yn Llandre.

Roedd yn amlwg, wrth siarad gydag ef, fod Will wedi setlo lawr yn rhwydd ac wedi mwynhau ei amser yn Alltgoch. Er mod i yn rhy ifanc i'w gofio gyda ni, roedd y teulu bob amser yn siarad yn barchus amdano. Roedd ei gof am y tair blynedd a hanner yn dal yn fyw iawn – yn cofio am y gweithgaredd ar y ffarm, ac yn cofio enwau'r ceffylau. Roedd yn cofio am y

bom yn dod lawr yng nghornel y cae ger y ffordd, a meddai'n gellweirus "Dyma fi wedi dod o Lerpwl i ddianc rhag y bomio a dyma nhw ar fy ôl yma!"

Meddylwch am y rhieni yn Lerpwl yn rhoi eu plant ar y trênn, heb wybod yn iawn i ble roeddynt yn cael mynd, a theuluoedd cefn gwlad yn eu cymryd i mewn heb wybod dim amdanynt – fel mae cymdeithas wedi newid dros y blynyddoedd. Doedd nhad a mam ond wedi bod yn briod ryw bum mis, wedi symud i Alltgoch brin ddau fis, ac yn cymryd y ddau fachgen yma, oedd tua deg oed, i mewn i'w cartref.

Ieuan Morgan

Maes y Gwaed

Y tro yma yn y gyfres achlysurol hon ar y Rhyfel Byd Cyntaf, ceir ychydig o hanes profiadau'r milwyr lleol a laddwyd yn ystod misoedd olaf y rhyfel, gan ganolbwyntio yn arbennig ar yr ieuegaf yn eu plith.

Erbyn haf 1918 daeth ymosodiadau grymus yr Almaenwyr, a ddechreuwyd yn y gwanwyn, i ben. Roedd y rhod wedi troi o blaid y Cynghreiriad, yn arbennig wrth i fyddinoedd Ffrainc a Phrydain dderbyn cefnogaeth gan fyddin yr Unol Daleithiau. O fis Awst ymlaen gwithwyd byddin yr Almaen yn ôl ond, gan fod llawer o'r rhyfela bellach ar diroedd agored, roedd y colledion ar y ddwy ochr yn anferth.

Ymhlith y rhai a laddwyd yn y cyfnod hwn oedd Peter Beechey, Tre'rddôl, Richard Jenkin Isaac, Penygraig, Taliesin, Gwilym Lloyd Davies a John James Jones, y ddau o Dal-y-bont, ac Arthur Morris, Bont-goch.

Dyn ifanc arall a laddwyd yn y brwydrau olaf oedd Jenkin Evan Evans, neu 'Jink' fel yr adwaenid ef, a fu'n byw gyda'u deulu yn y 'Woodlands' (Coetmor erbyn heddiw), Tal-y-bont. Mae nai Jink, Brian Evans yn byw gyda'i wraig Karen, yn Nantllain Isaf, a dwi'n ddiolchgar iddo am y wybodaeth a gefais am ei ewythr ac am gael benthyg y llun trawiadol.

Roedd Jink wedi'i eni yn Southwark, Llundain, yn 1899, yn fab i Jenkin a Catherine Evans a redai fusnes gwerthu llaeth llewyrchus yno. Tua 1910 prynodd Jenkin a Catherine Evans y 'Woodlands' a symud yno gyda'u plant, Jink, Claudia, Dorothy,



Teulu'r Woodlands tua 1914. Cefn: Mrs Catherine J Evans, Jenkin Evan Evans ('Jink'), y Cynghorydd Jenkin E Evans; blaen: Claudia, Dorothy, David (tad Brian), Gwen.

Gwen a David. Yn ystod y cyfnod hwn, bu Jink yn canlyn merch fferm Alltgoch, Ruffina Owen, enw sy'n adnabyddus iawn i lawer o drigolion hŷn yr ardal hon. Bu hithau'n byw am flynyddoedd lawer yn Llysterfyn ac roedd yn weithgar iawn yn lleol.

Mynychodd Jink Ysgol Tywyn ond pan yn ddeunaw mlwydd oed, yn Awst 1917, roedd yn gymwys i'w alw i'r lluoedd arfog. Ymunodd â'r Artists' Rifles, bataliwn a berthynai i Gatrawd Llundain, ym mis Tachwedd 1917. Wedi cyfnod o hyfforddiant, teithiodd i Ffrainc yn Ebrill 1918 ac, ym mis Awst,

roedd yn rhan o'r ymosodiad mawr ger tref Albert. Clwyfwyd ef a bu farw ar 23 Awst mewn ambiwlans maes a hynny ond tri diwrnod wedi iddo ddathlu ei ben-blwydd yn 19 mlwydd oed. Claddwyd ef ym mynwent Foncquevillers, pentref bach gwledig yn ardal y Somme, nid annhebyg i Dal-y-bont.

Roedd tad Brian, y diweddar David Evans, yn cofio ei frawd yn dda. Cofiai'n arbennig, gyda dagrau yn ei lygaid, y tro olaf iddo ei weld yn cerdded lawr dreif y 'Woodlands' ar ei ffordd i faes y gad.

Roedd colli ei fab hynaf yn ergyd drom i Jenkin Evans a oedd erbyn hyn yn Gynghorydd Sir. Pan ddaeth y rhyfel i ben, enwebwyd ef i gadeirio'r pwyllgor lleol a arweiniodd at adeiladu'r Neuadd Goffa, yn gofeb i'r rhai lleol, gan gynnwys ei fab, a laddwyd yn y rhyfel. Cawn ychydig o hanes hwn yn y rhifyn nesaf o Bapur Pawb.

GJ

Canlyniadau Sioe Llangynfelyn 2018

LLYSIAU

3 Taten

- 1 Phil Regan, Taliesin
- 2 Richard Spencer, Taliesin
- 3 Helen Hicks, Llangynfelyn

4 Sialotsyn

- 1 Richard H Davies, Tre'r Ddôl
- 2 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl
- 3 Wyn Griffiths, Tre'r Ddôl

3 Winwnsyn

- 1 Richard H Davies
- 2 Paul Fleming, Tre'r Ddôl
- 3 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl

3 Betysen

- 1 Phil Regan, Taliesin
- 2 Phil Regan, Taliesin
- 3 David Beale, Tre'r Ddôl

3 Moronen

- 1 Paul Fleming, Tre'r Ddôl
- 2 David Beale, Tre'r Ddôl
- 3 David Beale, Tre'r Ddôl

3 Cenhinien

- 1 Josie Smith, Taliesin
- 2 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

4 Ffa Dringo

- 1 Phil Regan, Taliesin
- 2 Michelle Leslie, Taliesin
- 3 David Beale, Tre'r Ddôl

4 Ffa Ffrengig

- 1 Mitchell, Llangynfelyn
- 2 Richard H Davies, Tre'r Ddôl
- 3 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

2 Ciwcymbr

- 1 Josie Smith, Taliesin
- 2 Richard Spencer, Taliesin
- 3 Wyn Griffiths, Tre'r Ddôl

Sypyn o domatos

- 1 Mr Richard H Davies, Tre'r Ddôl
- 2 Helen Hicks, Llangynfelyn
- 3 Richard Spencer, Taliesin

3 Tshili

- 1 Richard H Davies, Tre'r Ddôl
- 2 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

3 Corbwmpen

- 1 Richard Spencer, Taliesin
- 2 Mai Leeding, Taliesin
- 3 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

2 Maro

- 1 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl
- 2 Paul Fleming, Tre'r Ddôl
- 3 Iori Jones, Tre'r Ddôl

Blwch/hambwrdd o lysiau cymysg

- 1 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

Tusw o berlysiâu cymysg

- 1 Helen Hicks, Llangynfelyn
- 2 Juliet Regan, Taliesin
- 3 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl

Llysieuyn di-siâp

- 1 Paul Fleming, Tre'r Ddôl
- 2 Christine Gilbert, Tre'r Ddôl
- 3 Richard Spencer, Taliesin

Y Ffa Hiraf

- 1 Phil Regan, Taliesin



- 2 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

2 o unrhyw lysieuyn heb ei restru uchod

- 1 Richard Spencer, Taliesin
- 2 Richard H Davies, Tre'r Ddôl
- 3 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Richard H Davies, Al Liorzh, Tre'r Ddôl

Yr arddangosfa orau yn yr adran - Richard Spencer, Tŷ Manceinion, Taliesin

FFRWYTHAU

3 Afal Coginio

- 1 Geraint Lewis, Tre'r Ddôl
- 2 Cath Lloyd-Williams, Taliesin
- 3 Geraint Lewis, Tre'r Ddôl

3 Afal Pwdin

- 1 Mai Leeding, Taliesin
- 2 Phil Regan, Taliesin
- 3 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

6 Eirinen Sbaen

- 1 Gillian Jones, Tre'r Ddôl
- 2 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl
- 3 Gillian Jones, Tre'r Ddôl

3 Coesyn Riwbob

- 1 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl

3 Gellygen

- 1 Avril Bond, Taliesin
- 2 Liz Spencer, Taliesin
- 3 Mai Leeding, Taliesin

Ffrwythau Cymysg mewn Basged Fach

- 1 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl
- 2 Juliet Regan, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Gwenn Le Helloco, Al Liorzh, Tre'r Ddôl

Yr arddangosfa orau yn yr adran - Gwenn Le Helloco, Al Liorzh, Tre'r Ddôl

CYFFEITHIAU

Jar o Jam

- 1 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl
- 2 Juliet Regan, Taliesin
- 3 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl

Jar o Jeli ffrwythau

- 1 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 2 Helen Hicks, Llangynfelyn
- 3 Helen Hicks, Llangynfelyn

Jar o Siytni

- 1 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl
- 2 Helen Hicks, Llangynfelyn
- 3 Helen Hicks, Llangynfelyn

Jar o Farmalêd

- 1 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl
- 2 Juliet Regan, Taliesin
- 3 Helen Hicks, Llangynfelyn

Jar o Geuled Ffrwythau

- 1 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl
- 2 Elaine Antwis, Llangynfelyn

Jar o Bicl

- 1 Jill South, Taliesin
- 2 Richard H Davies, Tre'r Ddôl
- 3 Josie Smith, Taliesin

Jar o Gyffaith Anghyffredin

- 1 Helen Hicks, Llangynfelyn
- 2 Helen Hicks, Llangynfelyn

Dosbarth dechreuwyd, sawl sydd heb ennill gwobr o'r blaen

Jar o geuled ffrwythau

- 1 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl

Potel cordial

- 1 Sharon Lewis, Tre'r Ddôl
- 2 Sharon Lewis, Tre'r Ddôl
- 3 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl

Gwirod Ffrwythau

- 1 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl
- 2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 3 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Helen Hicks, Tŷ Coch, Llangynfelyn

Yr arddangosfa orau yn yr adran - Sharon Lewis, York House, Tre'r Ddôl

COGINIO

Spwng Fictoria

- 1 Valerie Walsh, Tre'r Ddôl
- 2 Kath Jones, Tre'r Ddôl

Fy Hoff Gacen

- 1 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 2 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl
- 3 Rhiannon Hamer-Brice, Taliesin

Dosbarth dechreuwyd, sawl sydd heb ennill gwobr o'r blaen

Cacen i blentyn wedi ei haddurno

- 1 Elaine Antwis, Llangynfelyn
- 2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl

Bara Brith

- 1 Elaine Antwis, Llangynfelyn
- 2 Olwen Jenkins, Llangynfelyn
- 3 Avril Bond, Taliesin

Cacen yn Cynnwys Llysieuyn

- 1 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl
- 2 Jane Pugh, Tre'r Ddôl

Fflan sawrus

- 1 Jane Pugh, Tre'r Ddôl
- 2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 3 Jane Pugh, Tre'r Ddôl

4 Pice ar y Maen

- 1 Heather Jones, Taliesin
- 2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 3 Eiriona Metcalfe, Taliesin

4 Rôl bara - gwyn neu frown

- 1 Wyn Griffiths, Tre'r Ddôl
- 2 Jessica Adams, Taliesin

Bara â blas- Melys neu Sawrus

- 1 Wyn Griffiths, Tre'r Ddôl
- 2 Innes Heron & Helen Ovens, Taliesin
- 3 Sharon Lewis, Tre'r Ddôl

Tarten driog

- 1 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl
- 2 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl

3 Myffin

- 1 Mitchell, Llangynfelyn
- 2 Elaine Antwis, Llangynfelyn

Cacen i ddynion yn unig - 4 Flapjac

- 1 Geraint Lewis, Tre'r Ddôl
- 2 Geraint Lewis, Tre'r Ddôl
- 3 Luke Jones, Tre'r Ddôl

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Glen Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
Yr arddangosfa orau yn yr adran - Ann Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llangynfelyn

CYNNYRCH FFERM

3 Wy Brown

- 1 Gillian Jones, Tre'r Ddôl
- 2 Gillian Jones, Tre'r Ddôl
- 3 Jill South, Taliesin

3 Wy Arlliwiedig

- 1 Mitchell, Llangynfelyn
- 2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 3 Richard H Davies, Tre'r Ddôl

3 Wy o wahanol liw

- 1 Gillian Jones, Tre'r Ddôl

Potel o Fêl clir

- 1 Mitchell, Llangynfelyn
- 2 Richard H Davies, Tre'r Ddôl
- 3 Richard Spencer, Taliesin

Desgil fach o Baté

- 1 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl
- 2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl

Salad Waldorf

- 1 Linda Hicks, Tre'r Ddôl



2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Gillian Jones, Blaenddol, Tre'r Ddôl
Yr arddangosfa orau yn yr adran - Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llancynfelyn

BLODAU

5 Coesyn Unigol - cymysg

- 1 Glenn Griffiths, Tre'r Ddôl
- 2 Carys Briddon, Tre'r Ddôl
- 3 Carys Briddon, Tre'r Ddôl

3 Coesyn Unigol - yr un math o flodyn

- 1 Mai Leeding, Taliesin
- 2 Dim enw
- 3 Christine Gilbert, Tre'r Ddôl

Planhigyn Dail y Tŷ mewn pot

- 1 Jan Nowak, Tre'r Ddôl
- 2 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl
- 3 Jan Nowak, Tre'r Ddôl

Planhigyn Tŷ yn ei Flodau mewn pot

- 1 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl
- 2 Sue Lewis, Tre'r Ddôl
- 3 Patricia Hemmings, Tre'r Ddôl

Cactws neu blanhigyn suddion mewn pot

- 1 Jan Nowak, Tre'r Ddôl
- 2 Sue Lewis, Tre'r Ddôl
- 3 Gwenn Le Helloco, Tre'r Ddôl

Potyn neu focs ffenestr wedi ei blannu

- 1 Patricia Hemmings, Tre'r Ddôl
- 2 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 3 Liz Spencer, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Jan Nowak, Banc Y Deri, Tre'r Ddôl

Yr arddangosfa orau yn yr adran - Glen Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl

GOSOD BLODAU

Gogoniant yr Ardd

- 1 Michelle Leslie, Taliesin

'Razzle, Dazzle'

- 1 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl
- 2 Jasmine Foster-Leslie, Taliesin

Bach Sydd Orau

- 1 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl
 - 2 Ffion Hicks, Llancynfelyn
- Dosbarth dechreuwyd, sawl sydd heb ennill gwobr o'r blaen

PRYD RHAMANTUS I DDAU

- 1 Linda Hicks, Tre'r Ddôl
- 2 Elaine Antwis, Llancynfelyn
- 3 Linda Hicks, Tre'r Ddôl

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Glen Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl
Yr arddangosfa orau yn yr adran - Glen Griffiths, Wenlyng, Tre'r Ddôl

ADRAN Y PLANT

Llwy bren wedi ei haddurno - Ysgol Gynradd

- 1 Rosie Clark, Taliesin

- 2 Bella Mitchell, Llancynfelyn
- 3 Gethin Morehouse, d/o Tŷ Coch, Llancynfelyn

Gardd Tylwyth Teg - Ysgol Gynradd

- 1 Cadi Wen Lloyd-Williams, Taliesin
- 2 Lucie, Medhurst, Penrhyn-coch
- 3 Rhoswen Evans, Tre'r Ddôl

Gardd Tylwyth Teg - Ysgol Uwchradd

- 1 Ffion Hicks, Llancynfelyn
- 2 Megan Glover, Talybont

Trysorau - Ysgol Gynradd

- 1 Lucie Medhurst, Penrhyn-coch
- 2 Oliver Lawton, d/o Tŷ Manceinion, Taliesin

Creadigaeth wreiddiol mewn Lego - Ysgol Gynradd

- 1 Ben Harris, Tre'r Ddôl
- 2 Gethin Morehouse, d/o Tŷ Coch, Llancynfelyn
- 3 Noa Berry, Ffwrnais

Creadigaeth wreiddiol mewn Lego - Ysgol Uwchradd

- 1 Louie Clark, Taliesin
- 2 Megan Glover, Tal-y-bont

Llun allan o basta - Ysgol Gynradd

- 1 Cadi Wen Lloyd-Williams, Taliesin
- 2 Henry Medhurst, Penrhyn-coch
- 3 Hazel Lawton, d/o Tŷ Manceinion, Taliesin

Bwntin papur - Ysgol Uwchradd

- 1 Becca Fflur, Tal-y-bont
- 2 Ben Harris, Tre'r Ddôl
- 3 Jasmine Berry, Ffwrnais

Arddangosfa neu lun o ddail coed - Ysgol Uwchradd

- 1 Ruby Indeka, Tre'r Ddôl
- 2 Becca Fflur, Tal-y-bont

Yn iau na 5 mlwydd oed ar 1 Medi

Print llysiuyn

- 1 Hannah Lawton, d/o Tŷ Manceinion, Taliesin
- 2 Zoe Hodgson, Taliesin

Coginio

4 Tarten jam

- 1 Becca Fflur, Tal-y-bont
- 2 Ffion Hicks, Llancynfelyn
- 3 Ffion Hicks, Llancynfelyn

Gwobr arbennig er cof am Judith Pearson - Rosie Clark, Temperance House, Taliesin

CREFFTAU

Arddurn Nadolig - unrhyw gyfrwng

- 1 Kath Jones, Tre'r Ddôl
- 2 Josie Smith, Taliesin
- 3 Lynne Regan, Taliesin

Eitem yn defnyddio botymau

- 1 Jane Pugh, Tre'r Ddôl
- 2 Sue Lewis, Tre'r Ddôl
- 3 Jan Nowak, Tre'r Ddôl

Gorchudd i botel ddŵr poeth - unrhyw gyfrwng

- 1 Meinir Fleming, Tre'r Ddôl
- 2 Myrna Bailey, Taliesin
- 3 Anwen Haynes, Taliesin

Eitem Ymarferol i'r Gegin

- 1 Eloise Frampton, Taliesin

Eitem o Grefft Papur

- 1 Ann Mitchell, Llancynfelyn
- 2 Katy Indeka, Tre'r Ddôl

Eitem mewn gwlân

- 1 Myrna Bailey, Taliesin
- 2 Josie Smith, Taliesin
- 3 Kath Jones, Tre'r Ddôl

Anifail o lysiau

- 1 Ann Mitchell, Llancynfelyn
- 2 Glen Griffiths, Tre'r Ddôl
- 3 Ffion Hicks, Llancynfelyn

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Ann Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llancynfelyn
Yr arddangosfa orau yn yr adran - Ann Mitchell, Gwynfryn Lodge, Llancynfelyn

FFOTOGRAFFIAETH

Person yn gweithio - Lliw

- 1 Anthony Jarrett, Taliesin
- 2 Carys Briddon, Tre'r Ddôl
- 3 Sharon Lewis, Tre'r Ddôl

Ffenestr - lliw

- 1 Gillian Jones, Tre'r Ddôl
- 2 Jan Nowak, Tre'r Ddôl
- 3 Carys Briddon, Tre'r Ddôl

Cysgodion - du a gwyn

- 1 Kathryn Edwards, Taliesin
- 2 Sharon Lewis, Tre'r Ddôl
- 3 Anthony Jarrett, Taliesin

Y nifer uchaf o bwyntiau yn yr adran - Anthony Jarrett, Llys y Coed, Taliesin

Yr arddangosfa orau yn yr adran - Anthony Jarrett, Llys y Coed, Taliesin

ADRAN PLANT

Print traed - lliw, Ysgol Gynradd

- 1 Alys Jarrett, Taliesin
- 2 Alys Jarrett, Taliesin
- 3 Noah Berry, Ffwrnais

Print traed - lliw, Ysgol Uwchradd

- 1 Becca Fflur, Tal-y-bont
- 2 Jasmine Berry, Ffwrnais

Hunlun - lliw, Ysgol Gynradd

- 1 Henry Medhurst, Penrhyn-coch
- 2 Noah Berry, Ffwrnais
- 3 Noah Berry, Ffwrnais

Hunlun - lliw, Ysgol Uwchradd

- 1 Jasmine Berry, Ffwrnais

CYSTADLEUAETH BWGAN BRAIN

- 1 Mitchell, Llancynfelyn
- 2 Teulu Lewis, d/o York House, Tre'r Ddôl
- 3 Luna Brice, Taliesin (cydradd)
- 3 Eloise Frampton, Taliesin

Yn yr Ardd

Plannu bylbiau

Wrth i'r dyddiau fyrhau, rŵan ydy'r amser i blannu bylbiau'r gwanwyn. Mae'r pridd yn dal yn gynnes ac fe fydd cyfle iddyn nhw fagu gwreiddiau, ond gadewch blannu tiwlipau tan ddiwedd Tachwedd. Oergaledwch nhw cyn eu plannu. Os am eu gosod yn anffurfiol, taflwch nhw i fyny wedyn eu plannu lle maen nhw'n disgyn.

Creu lawnt

Rŵan yw'r amser hefyd i greu lawnt newydd, neu ei thrwsio, ei hawyru a'i sgrifffio. Parhewch i dorri lawnt sefydlog sy'n dal i dyfu, ond gadewch hyd at 3'' o dyfiant dros y gaeaf. Mae'n well peidio â'i droedio, os yn bosibl.

Cyffredinol

Torrwch hen dyfiant coediog i lawr at y bonyn. Bwydych camelia, tri lliw ar ddeg (hydrangea) a rhododendron â gwrtaith arbennig i flodau sy'n hoffi pridd asid. Defnyddiwch y llawnder tymhorol o ddail a glaswellt ar gyfer eich tomen gompost.

Dewch â'r planhigion tŷ i mewn dros y gaeaf, a'u cynefino'n raddol i'r tymheredd gwahanol.

Bydd angen i offer yr ardd gael eu glanhau a'u hogi cyn eu cadw dros y gaeaf. Cofiwch lanhau'r potiau hefyd. Mae 'Jeyes Fluid' gwan yn eu diheintio'n dda.

(Drwy garedigrwydd *Llais Ardudwy*)

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cyntlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760



Cartref Oddi Cartref



Ers ymweliad Emyr John, Pennaeth Ysgol Llangynfelyn ar y pryd, ag Ysgol Tal-y-bont i drafod hanes mudo'r Cymry, a'r Gymuned Gymraeg sy'n bodoli ym Mhatagonia heddiw, roeddwn i'n gwybod bod yn rhaid imi fynd yno o leiaf unwaith yn fy mywyd. Doeddwn i ddim yn gwybod sut na gyda phwy, ond roeddwn i'n benderfynol o wneud. Yn lwcus iawn, fe ddaeth y cyfle i wneud hynny yn ddiweddar. Bob blwyddyn, mae Ysgol y Gymraeg Prifysgol Caerdydd yn cynnig ysgoloriaeth i 5 myfyriwr i fynd yno ar brofiad gwaith am gyfnod o fis yn ystod yr haf ac eleni, ro'n i'n un ohonynt! Bwriad y daith oedd i hybu'r Gymraeg ymysg plant, pobl ifanc ac oedolion y Wladfa drwy ymweld â'r ysgolion yn ogystal â chynnal amryw o weithgareddau Cymreig. Bues i'n dysgu rhai o blant Ysgol y Cwm i ganu'r delyn, ac fe brofodd gwersi clocio Clocswyr Ceulan hefyd yn fuddiol iawn yno, gan eu bod wedi dwlu ar y grefft! Roedden nhw wrth eu boddau, yn enwedig yn y noson Cawl a Chân a gynhaliom yno. Roedd ymweld â fferm y Greens (rhywle y mae'n rhaid i chi ymweld ag e os byddwch chi byth yn Nhrefelin) i farchogaeth a gwledda yn brofiad mor gartrefol a Chymreig, a hynny ben arall y byd. A dyna a deimlais trwy gydol fy amser yn Nhrefelin – cartrefol. Roedd yn agoriad llygad gweld bod y bobl hyn yn gwneud yr yn ymdrech â ni i gadw'r Gymraeg yn fyw yno, a rhai ohonynt erioed wedi bod i Gymru, ac efallai byth am gael y cyfle. Buaswn i'n sicr yn argymhell i unrhyw un i fynd yno, hyd yn oed os nad ydych yn ymddiddori yn y diwylliant, gan fod cerdded yn y Parc Cenedlaethol a'r daith ar y 'La Trochita' (trên stêm) i bentref bach Nahuel Pan, yn brofiadau gwych yn eu hunain.

Esther Ifan

Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Mae'n llawer haws wynebu'r gaeaf sydd o'n blaenau gan wybod y bydd cangen Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch yn cwrdd unwaith yn rhagor wedi seibiant dros yr haf, ac mae'r aelodau wedi trefnu rhaglen amrywiol a diddorol i'n cadw ni i fynd hyd at fis Mehefin 2019!

Gwestai cynta'r tymor ar nos Lun, 24 Medi oedd yr artist lleol Kim James Williams. Mae Kim yn defnyddio inc, paent dyfrliw ac acrylig i luniadu pobl a lleoliadau.

Dechreuodd trwy ddangos a disgrifio enghreifftiau o'i gwaith a ddaeth gyda hi, cyn mynd ymlaen i egluro beth oedd yn ei hysbrydoli neu yn tynnu ei sylw, gan ddewis y llinell mwyaf pwysig yn yr olygfa fel man cychwyn i'w gwaith. Pwysleisiodd hefyd fod ei lluniau'n aml yn adrodd stori.

Wedi i Kim ddangos sut yr oedd yn tynnu llun gan ddefnyddio inc du, cafodd yr aelodau gyfle i ddefnyddio siarcol ac inc i luniadu eu hunain (er mawr ddychryn i ambell un!!!).

Diolchwyd iddi am noson hwyliog a chreadigol gan Fal Jenkins a mwynhawyd cwpaned a chacen i gloi'r noson.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 15 Hydref pan fydd Ann Mason Davies yn trafod 'Blodau'r Beibl'. Beth am ymuno â ni?

Os am fwy o wybodaeth am y gangen yna cysylltwch gyda Fal 832560 / jenkinsfal@gmail.com

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Cyfarfod Mis Medi

Cynhaliwyd cyfarfod mis Medi'r Cyngor ar nos Lun, 24 Medi 2018. Cychwynnwyd y cyfarfod gyda'r Cadeirydd, Cyng Enoc Jenkins, yn gofyn i bawb sefyll am funud o dawelwch er cof am ein ffrind, a'n cyd gynghorydd, David Ll. Evans.

Croeso'r Clerc Newydd

Rhoddodd y Cynghorwyr groeso cynnes i'r Clerc newydd, Mr Rab Jones, sydd wedi cymryd drosodd gan Miss Lowri Jones. Cytunwyd mi fydd yn rhaid trefnu noson i ddiolch i Lowri am ei gwaith caled ar ran y Cyngor a thrigolion Ceulanamaesmawr dros nifer o flynyddoedd.

Sedd Wag ar y Cyngor

Yn dilyn colled trist Cyng David Ll. Evans, mae yna un sedd wag ar y Cyngor. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn cysylltu gyda swyddogion Cyngor Sir Ceredigion am gymorth gyda'r broses o lenwi'r sedd wag. Ers y cyfarfod mae'r Clerc wedi derbyn Hysbysiad Cyhoeddus am y sedd wag sydd yn ymddangos ar yr hysbysfwrdd o flaen y Neuadd Goffa yn Nhal-y-bont. Mae hwn yn rhoi'r cyfle i drigolion Ward Ceulanamaesmawr ofyn am etholiad i lenwi'r swydd.

Mynwent Tal-y-bont

Cytunwyd fod angen cynnal cyfarfod o Is-Bwyllgor y Fynwent yn ystod Mis Hydref i ystyried nifer o broblemau sydd angen sylw yn y fynwent. Mi fydd rhaid i'r Is-Bwyllgor gwrdd eto yn ystod ym Mis Tachwedd i ystyried adolygu'r prisiau am gladdedigaeth yn y fynwent.

Seremoni Sul y Cofio

Cafwyd diweddariad gan Cyng Megan Mai ar drefniadau Sul y Cofio. Rhaid ystyried mi fydd Sul y Cofio eleni yn cwmpo ar 11 Tachwedd 2018, can mlynedd i'r diwrnod ers daeth y Rhyfel Byd Cyntaf i ben. Gobeithir y bydd pawb yn cymryd y cyfle i dalu teyrnged i'r rhai o'r ardal a fu'n gwasanaethu yn ystod y ddau Ryfel Byd.

Seremoni Goleuo'r Nadolig

Trafodwyd y paratodau tuag at gynnal Seremoni Goleuo'r Nadolig ger y Neuadd Coffa ar ddechrau mis Rhagfyr. Mae'n debyg y bydd hyn ar nos Iau, 6 Rhagfyr 2018, ond bydd rhagor o fanylion ar gael erbyn rhifyn

nesaf Papur Pawb.

Materion Ffyrdd

Cafwyd diweddariad ar y sefyllfa o ran nifer o faterion gyda'r ffyrdd yn yr ardal. Cadarnhawyd fod y gwaith i greu llefydd pasio ar y ffordd C1019 rhwng Tal-y-bont a Bont-goch wedi cael ei gwblhau. Eglurodd Cyng Emyr Davies fod safon y gwaith yn ardderchog ac y bydd y gwaith yma yn gwneud bywyd yn llawer haws i drigolion yr ardal.

Cau Ffordd Dros Dro

Ers y cyfarfod mae'r Clerc wedi derbyn gohebiaeth gan y Cyngor Sir mi fydd y ffordd C1019 ar gau trwy ganol pentref Bont-goch o 7:30yb ar 15 Hydref 2018 hyd 6:00yh ar 19 Hydref 2018 er mwyn cael rhoi wyneb newydd ar y ffordd. Mae yna fap yn dangos y darn ffordd fydd ar gau ar yr hysbysfyrddau yn Nhal-y-bont a Bont-goch.

Clerc Newydd

Croesawyd y Clerc newydd sef Mr Rab Jones o Lantwymyn yn Nyffryn Dyfi. Ganwyd Rab yn Aberystwyth ond fe'i fagwyd ar fferm ei rieni ym Mhlwyf Cemaes, Sir Drefaldwyn. Yn dilyn addysg yn y bhrifysgol, fe fuodd yn gweithio am gyfnod gyda chwmni Jaguar cyn byw am dair mlynedd yn yr Unol Daleithiau. Ar ôl dychwelyd i fyw yng Nghymru, bu'n gweithio am gyfnod byr gyda Chyngor Dosbarth Ceredigion cyn ymuno ag Adran Cefn Gwlad Cyngor Sir Powys.

Buodd yn gweithio gyda Chyngor Sir Powys am gyfnod o ugain mlynedd cyn ymddeol yn gynnar a chymryd swydd rhan amser fel Clerc i Gyngor Tref Machynlleth. Erbyn hyn mae yn gwasanaethu fel Clerc i ddau Gyngor bach arall yn ogystal â Chyngor Cymuned Ceulanamaesmawr.

Tu allan i'r gwaith, ei brif ddiddordebau yw dilyn gobeithion Tîm Rygbi Cymru a hel achau. Yn ogystal â'i deulu ei hun, mae ar hyn o bryd yn archwilio'r enwau ar gof golofnau ardal Dyffryn Dyfi. Mae Rab hefyd yn ysgrifennydd Cymdeithas Dinesig Machynlleth a'r Ardal.

Rab Jones
Clerc Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr
01650 511 836
07831 402 002

Dathlu yn Llangynfelyn




Ar 1 Medi, am yr ail flwyddyn, bu cymuned Llangynfelyn yn dathlu drwy gynnal Parti Wedi'r Sioe. Roedd y dathliadau'n boblogaidd iawn a daeth llawer o'r gymuned gyfan i ymuno yn yr hwyl.

Hoffai pwyllgor y Parti Wedi'r Sioe ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ar y dydd. Diolch yn arbennig am y gwobrau raffl gafwyd gan Gwmni Teithio Canolbarth Cymru, Tanners, Teiars Huw Lewis, gemwaith Dave Gilbert, Borth Wild Animal Kingdom, Tafarn y Wild Fowler, Cletwr, Molly's Sweet Shop, a gyfrannodd losin i'r gêm i ddyfalu y nifer o losin yn y jar yn ogystal â gwobr raffl. Mae'r pwyllgor hefyd yn ddiolchgar i Tesco, Aberystwyth am ddarparu'r gwobrau ar gyfer y wisg ffansi orau ac i gwmni Greggs am eu rhodd o doesenni.

Diolch o galon i'r Wild Fowler am fod yn barod i ni gynnal y dathliadau yn y dafarn ac i *Aber Bounce* a'r *Hornettes* hwythau am eu cyfraniadau.

Clwb Ffermwyr Ifanc Talybont

Cynhaliwyd noson agoriadol arbennig ar ddechrau blwyddyn newydd i Glwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont. Daeth criw mawr o aelodau hen a newydd ynghyd i fwynhau noson gymdeithasol. Ac er y gwynt a'r glaw treuliwyd noson hwyliog arall yr wythnos ganlynol yn Bowllo 10 yn Nghlarach. Mae hon yn argoeli i fod yn flwyddyn brysur arall i'r Clwb gyda'r paratoi ar gyfer yr Eisteddfod eisoes wedi dechrau. Cynhelir Eisteddfod Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid ar y 1af a'r 3ydd o Dachwedd.



6 Maes y Felin | Talybont | Ceredigion | SY24 5DZ

www.michaelrowlands.ltd.uk
m.rowlands1958@gmail.com



Michael Rowlands
Adeiladwr

01970 832 732 • 07929 003 576

Grant Mayhew Ltd

GWAITH COED, TO ac ADEILADU CYFFREDINOL



01970 832772 / 07846 255881
grantmayhewltd@yahoo.co.uk

Y LLEW GWYN
Tal-y-bont

Mae Gareth, Bev a Carl yn edrych ymlaen i'ch croesawu i'r Gwyn.

Ar agor bob dydd

Bwyd ar gael 7 diwrnod yr wythnos 12.00 tan 9.00

Nos Fawrth: Pei a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Nos Iau: Cyri a Peint 6.00 tan 9.00 £8.50

Cinio Dydd Sul 12.00 tan 3.00
(Un cwrs: £7.95 Dau gws £9.95)

Ystafelloedd ar gael

01970 832245
garethwhitelion@outlook.com



Clerc newydd Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr, Mr Rab Jones, gyda'r Cadeirydd, Cyng Enoc Jenkins.



YBlac

01970 832 555

croeso@yblac.co.uk

Cymdeithas Hanes Llangynfelyn



Sgwrs gan Helen Ovens ar hanes cadw gwenyn oedd yr eitem gyntaf ar raglen tymor newydd Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn ar 25 Medi. Cafwyd hanesion difyr ganddi am arferion y gwenyn mêl ac ymdrechion pobl i fanteisio arnynt ar hyd y canrifoedd. Tim Palmer fydd y gŵr gwadd ar 30 Hydref pan fydd yn traethu am gerrig adeiladu yng Ngheredigion.

Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth

Ar gychwyn tymor newydd, estynnodd y llywydd, Eiriona Metcalfe, groeso i'r aelodau i'r cyfarfod yn festri capel Rehoboth ar brynawn Mawrth, 11 Medi. Braf oedd cael croesawu y gŵr gwadd, sef Raymond Williams o Giliau Aeron, milfeddyg sydd wedi ymddeol erbyn hyn ac sydd wedi symud yn ôl i Giliau Aeron ar ôl byw a gweithio dros glawdd Offa am nifer o flynyddoedd. Mae ef yn gyd-gadeirydd Cymdeithas Cymru Ohio, ac eleni bu'n trefnu'r dathliadau a gynhaliwyd ym mis Mehefin i nodi'r dau canmlwyddiant ers i chwe theulu benderfynu gadael ardal Cilcennin yn 1818 i sefydlu cymuned Gymreig yn Ohio. Roedd yn ddiddorol clywed yr hanes pam y penderfynodd y teuluoedd ymfudo i'r Amerig, a'r anawsterau a ddaeth i'w rhan yn ystod y daith. Cychwynnodd 36 ohonynt ar long o Lerpwl ond bu farw un yn ystod y fordaith. Mae'n dda deall fod llwyddiant wedi dod i ran nifer ohonynt ar ôl iddynt ymsefydlu yn yr Amerig. Cafwyd gwybodaeth am yr holl ddigwyddiadau a fu yn ardal Aberaeron yn ystod wythnos y dathlu ac roedd hanner cant o Americanwyr o dras Gymreig wedi dod draw i Gymru i ymuno yn y dathliadau, a bu'r wythnos yn llwyddiant mawr. Diolchwyd i Mr Williams am sgwrs a hanesion diddorol iawn, ac yna mwynhawyd y te a'r bisgedi a baratowyd gan Mai Leeding a Myfanwy Rowlands.

Taith Capel Rehoboth

Ar ddydd Sadwrn, 15 Medi, aeth aelodau a ffrindiau capel Rehoboth ar eu taith flynyddol gan fynd heibio Llyn Brianne (isel ei ddyfroedd ar ôl yr haf sych) tuag at Myddfai. Ymwelwyd yn gyntaf â'r ganolfan i ymwelwyr yn y pentref ac ar wal y caffi yno ceir gwybodaeth ddefnyddiol am yr ardal, Meddygon Myddfai a chwedl Morwyn Llyn-y-Fan Fach. Ar ôl mwynhau pryd ysgafn yn y caffi, ymwelwyd ag Eglwys hynafol Sant Mihangel yn y pentref lle cafwyd mwy o hanes yr ardal gan ŵr lleol, Mr Lyn Richards. Uchafbwynt y diwrnod oedd ymweld â chartref 'Y Pêr-ganiedydd', William Williams Pantycelyn, lle dysgwyd mwy am ei waith a'i fywyd gan y Parch Ddr Watcyn James a Mr Cecil Williams, un o'i ddisgynyddion sy'n byw ym Mhantycelyn. Aethpwyd ymlaen wedyn i Eglwys Llanfair-ar-y-Bryn i weld bedd a chofeb William Williams. Ar ôl treulio ychydig o amser yn Llanymddyfri teithiwyd i Dafarn Jem ger Cwmann i fwynhau pryd blasus iawn i gloi diwrnod addysgiadol a phleserus dros ben. Mae ein diolch yn fawr i Robert Williams am drefnu'r cyfan ar ein cyfer unwaith eto.



**argraffu da
am bris da**

ylLolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com

Garej Davmor
Petrol a Diesel • Gwasanaethau, trwsio, MOT, a theiars
Adnewyddu blychau gêr a gosod cydyddion
Brechdanau poeth ac oer • Siop Gyfleustra drwyddedig
Y gareg gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

www.davmorgarage.co.uk
Ffôn: 01970 832278

TEIARS HUW LEWIS
M.O.T. CENTRE
TYRES

**Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT**

HUWLEWISTYRES.COM

Glanyrafon
Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK
Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.
**ABERYSTWYTH 01970 611166 MACHYNLLETH 01654 700000
LLANBED 01570 422221**

Rhodfa'r Parc

Sesiwn Nos Wener



Cafwyd dechreuad hyfryd i dymor newydd Sesiwn Nos Wener pan groesawyd y gantores amryddawn Meinir Gwilym i'r Llew Gwyn ar nos Wener 21 Medi. Cafwyd cyfuniad o ganeuon gwerin swynol a'r deunydd gafaelfgar gwreiddiol sydd yn rhan mor nodweddiadol o set Meinir ers iddi gychwyn diddanu cynulleidfaoedd ledled Cymru. Diolch i Dan, sydd wedi ymuno â'r pwyllgor eleni, am drefnu noson agoriadol mor ddifyr. Mis nesaf, bydd Dafydd Iwan yn ymddangos yn y Llew Du, ar nos Wener 26 Hydref. Bachwch eich tocynnau mewn da bryd.

Cowbois Cletwr



Yn gyson yn ystod misoedd yr haf gwelir hyd at 10 o geffylau wedi eu clymu i'r ffens ger y ffordd y tu allan i Cletwr. Teithio 'dros bryn a dôl' mae'r marchogion o Dalgarth i Ynyslas. Mae 'bryn a dôl' yn y cyswllt yma yn golygu dilyn llwybrau ceffyl yn bennaf dros Y Mynydd Du, Epynt, Cwm Elan a Phumlumon, taith o ryw 80 milltir a'r stop olaf cyn pen y daith yn Ynyslas yw Cletwr. Pedwar diwrnod olaf wythnos o wyliau yw'r daith Traws Cymru; dod i nabad y ceffylau yw'r tridiau cyntaf. Trefnir y cyfan gan gwmni Trans Wales Trails, y nhw sy'n cludo'ch bagiau a'ch bwyd i'r mannau lletya a chiniawa arbennig ar eich taith.

Mae'r bagiau yn cyrraedd y gwesty cyn y ceffylau!

Yn ogystal, eu cobiau Cymreig nhw ydynt, cobiau sydd erbyn hyn yn hen gyfarwydd â'r trec a gynhelir pob tair wythnos. Roedd y daith gyntaf yn 1970 ac yn y llun gwelir taith olaf swyddogol eleni ond oherwydd cais arbennig o Siapan bydd un ychwanegol ym mis Hydref. Mae'r teithiau yn boblogaidd gan dramorwyr eraill, marchogwyr o De'r Affrig a'r UDA sy'n pasio heibio amlaf.

Ar y cychwyn roedd y ceffylau yn torri ffens Cletwr yn gyson wrth dynnu felly rhoddwyd bachau pwrpasol mewn i osgoi y broblem. Wrth adael am Ynyslas gweiddodd un dyn arnaf gan ddweud bod y daith yn werth chweil. Dyna'r wybodaeth a'r anogaeth nawr mae lan i chi!

Rhys Huws

Y Gair Olaf



Wrth i haf poeth yng Ngogledd Ceredigion ddirwyn i ben, un o fy hoff brofiadau bob blwyddyn yw medru mwynhau y ddwy sioe yn Nhal-y-bont a Llangynfelyn. Tra bod fy nhad Ieuan Evans yn arbennig o lwyddiannus yn tyfu llysiau, gan ennill gwobrau di-rif yn y sioeau lleol, mae fy mryd i bob amser wedi bod mewn tyfu planhigion.

Wrth i'r planhigion a oedd yn crino yn y sychder ymateb a dechrau datblygu unwaith eto, mae'n amser y sioeau. Mae'n gyfnod ddisglair i mi a thra bod pethau yn newid dros bob cenhedlaeth, byddai'n braf bod tyfu llysiau, ffrwythau a blodau yn dal i fod yn rhywbeth y bydd pobl yn ei fwynhau am flynyddoedd i ddod a'r sioeau lleol yn ffynnu.

Mai Leeding



Tad Mai, Mr Ieuan Evans yn derbyn cwpan am ei llysiau buddugol oddi wrth Mrs E H Williams yn Sioe Tal-y-bont, 1986

Cylch Meithrin Tal-y-bont

Gyda'r flwyddyn ysgol newydd, fe ail-ddechreuodd criw hwyliog a bywiog Cylch Meithrin Tal-y-bont, gyda llu o wynebau cyfarwydd a newydd - ymhlith y plant â'r oedolion fel ei gilydd.

Rydyn ni wedi ffarwelio - â thristwch - ag Anti Karren, Anti Gaynor ac Anti Ceri. Dymunwn bob hwyl i'r dair ohonynt gyda'u gwaith â'u prosiectau amrywiol, ac yn arbennig felly Anti Karren (Roberts) sydd wedi cychwyn ar gwrs Busnes a Rheolaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth. Byddwn ni'n gweld eich eisiau chi i gyd!

Ac yn sgil tristwch y ffarwelio, daeth pleser y croesawu, gyda thair aelod newydd o staff wedi ymuno yn ystod mis Medi. Bydd y tair ohonynt yn wynebau cyfarwydd i ddarllenwyr Papur Pawb gan eu bod oll o'r ardal: Lisa Southgate, Mali Jones - ac arweinydd newydd y Cylch, Vicky Joseph. Rydym yn eithriadol o lwcus o'n staff ymroddedig.

Bu Cletwr yn cynnig y cyfle i gwsmeriaid gyfrannu at y Cylch yn ddiweddar. Diolchwn i Cletwr am ein cefnogi ni, a diolchwn o galon i'r holl gwsmeriaid am eu cyfraniadau hael. Mae pob ceiniog yn cyfrif, ac yn caniatáu i'r Cylch ddatblygu ei adnoddau.

Rydym yn edrych ymlaen at wahodd plant yr ardal i'n Parti Calan Gaeaf blynyddol, sy'n digwydd brynhawn dydd Sul 28 Hydref, yn y Neuadd Goffa. Cofiwch eich gwisg ffansi!



Chwaraeon



Jamie Barron yn penio at y gôl

Hwyl yn y Cwpanau

Mae Clwb Pêl-droed Tal-y-bont wedi cyrraedd rowndiau nesaf dwy gystadleuaeth. Ar 29 Medi roedd Tal-y-bont oddi cartref yn erbyn y clwb o sir Drefaldwyn, Kerry, yn rownd gyntaf Cwpan Emrys Morgan. Er yn colli 2-1 yn ystod amser ychwanegol, cipiwyd y fuddugoliaeth wrth i Osian Thomas sgorio ddwywaith. Yna, ar 6 Hydref, llwyddwyd i guro Eilyddion Borth o bedair gôl i un ar gaeau Blaendolau yn rownd gyntaf Cwpan Dai 'Dynamo' Davies. Y sgorwyr i Dal-y-bont oedd Jamie Barron (dwyl), Gareth Baker ac un gôl i rwyd ei hun gan un o amddiffynwyr Borth.

CYMHORTHFA

Ffair Trwsio a Rhannu

Cymhorthfa yw'r hen arfer Cymreig o gynnig help llaw cymunedol. Tro 'ma, bydd yr help yn canolbwyntio ar osgoi gwastraff, rhoi pethau at ddefnydd da a rhoi cynnig ar rywbeth newydd. Digwyddiad teuluol.

Dydd Sul 21 Hydref
Y Plas, Machynlleth
10.30 – 3.30

CAFFI TRWSIO

Mân betheuach trydan a domestig
Cyfrifiaduron
Dillad / Tecstilau
Beics

Dydd Sadwrn 17 Tachwedd
Canolfan Owain Glyndŵr
10.30 – 3.30

DATHLIAD 20

MLYNEDD ecodyfi - a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol

croeso i bawb
Nos Iau 8 Tachwedd
Clwb Bowllo Machynlleth
7.30

GWEFAN NEWYDD

Gwybodaeth gymunedol:
Cyllid a chymorth;
Diwylliant a chymunedau;
Pethau i'w gwneud;
Yr amgylchedd, gwastraff ac
ynni;
Teithio a mynd o le i le.
www.ecodyfi.cymru
Gweler ein tudalen facebook
hefyd

Y Plas, Machynlleth
01654 703965
info@ecodyfi.org.uk



STORFA CANOLBARTH CYMRU



Storfa Cartref a Busnes



Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion
Monitro Diogelwch 24 awr—Wedi ei wresogi



Bocsas a bubblewrap ar lein
www.boxshopsupplies.co.uk

Ffon: 01654 703592
www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ

INVESTORS | BUDDSODWYR
IN PEOPLE | MEWN POBL

Taith Gerdded Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru

Ar ddydd Sul 30 Medi cynhaliwyd taith gerdded gan Gymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, o dan arweiniad medrus Angharad Fychan, i ardal Nant-y-moch a Phumlumon. Roedd dros 20 ar y daith a chafwyd cyfle i glywed am darddiad sawl enw hanesyddol ar y ffordd. Mwynhawyd cinio ar lan Llyn Llygad Rheidol, cyn mentro i ddringo i gopa Pumlumon Fawr. Mae'r Gymdeithas yn tyfu'n gyflym wrth i nifer o bobl ymddiddori mewn hanes a tharddiad enwau lleol.

Gobeithir trefnu teithiau eraill yn y dyfodol agos yn ardal Papur Pawb. Os am ymuno â'r Gymdeithas i dderbyn gwybodaeth am ein holl weithgareddau, (mae'r tâl aelodaeth ond yn £10-00 y flwyddyn), gyrrwch e-bost at enwaulleoedd@gmail.com neu cysylltwch gyda'r ysgrifennydd aelodaeth, Richard Huws, ar rehuws@aol.com / 01970-832566



Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwallt gan Richard
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553